Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales



# Adroddiad Ystadegol Blynyddol Sgrinio Coluddion Cymru 2022-23

**Fersiwn 1**

Mae'r ddogfen yma ar gael yn Saesneg/This document is available in English

## Manylion cyhoeddi

Teitl: Adroddiad Ystadegol Blynyddol Sgrinio Coluddion Cymru 2022-23
Dyddiad: Tachwedd 2024
ISBN: 978-1-83766-514-3

## Manylion cyswllt

Helen Clayton, Rheolwr Gwasanaethau Gwybodeg a Data, yr Adran Gwybodeg, Llawr 6, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Rhif 2 Cwr y Ddinas, Stryd Tyndall, Caerdydd, CF10 4BZ

E-bost: screening.information@wales.nhs.uk

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth yn Gymraeg heb oedi / We welcome correspondence and phone calls in Welsh. Byddwn yn ymateb i ohebiaeth yn Gymraeg yn ddi-oed.

## Datganiad sicrhau ansawdd

Mae cofnodion sgrinio data yn cael eu diweddaru'n barhaus. Mae'r cronfeydd data a ddefnyddir gan Adran Sgrinio Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cael eu diweddaru'n ddyddiol pan fydd cofnodion yn cael eu hychwanegu, eu newid neu eu dileu (archifo). Gallai hyn ymwneud â phan fydd unigolyn wedi'i nodi fel rhywun y mae angen gwasanaeth sgrinio arno; wedi cael canlyniadau sy'n rhaid eu cofnodi, neu â newid statws ac nad oes angen sgrinio arno mwyach yn y drefn honno. Derbynnir data o nifer fawr o ffynonellau gwahanol sy'n amrywio o ran cywirdeb a chyflawnder. Mae'r Adran Sgrinio yn gwirio data ar gyfer cywirdeb drwy gymharu setiau data – er enghraifft data practis meddyg teulu – ac yn cywiro'r data codio lle y bo'n bosibl. Dylid nodi y ceir oedi weithiau o ran casglu data – er enghraifft efallai na fydd person yn cofrestru gyda'i feddyg teulu ar unwaith os bydd yn symud cyfeiriad. Felly bydd yr oedi hwn yn effeithio ar gyflawnder y data yn dibynnu ar amgylchiadau unigol. Yn ogystal, dylai'r darllenydd fod yn ymwybodol bod y data yn cael eu diweddaru'n barhaus a gall fod mân addasiadau i'r rhifau a ddyfynnir yn y ddogfen hon o'r naill flwyddyn i'r llall yn sgil diweddaru'r data. Weithiau rydym yn atal niferoedd sy'n is na phump lle mae'n bosibl bod y data'n sensitif.

## Gwybodaeth am hawlfraint

© 2024 Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru

Gellir atgynhyrchu deunydd yn y ddogfen hon o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored (http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence-cymraeg/version/3/) ar yr amod y caiff hynny ei wneud yn gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.

Dylid cydnabod Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru. Mae’r hawlfraint o ran y trefniant teipograffyddol, y dylunio a’r diwygio yn eiddo i Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

# Cynnwys

Cynnwys ..... 4
Tablau ..... 4
Ffigurau ..... 5
Negeseuon allweddol ..... 6
Cyflwyniad ..... 7
Cefndir ..... 7
Cyflawni'r rhaglen ..... 8
Llwybr sgrinio ..... 8
Penawdau ystadegol ..... 10
Data ..... 12
Cwmpas ..... 12
Canran y rhai a gafodd eu sgrinio yn ôl bwrdd iechyd preswyl ..... 18
Canran y rhai a gafodd eu sgrinio yn ôl math o ailalw ..... 25
Cyfranogwyr a wahoddwyd ..... 27
Cyfraddau adrodd labordai ..... 31
Amseroedd aros ar gyfer canlyniadau sgrinio ..... 33
Presenoldeb mewn colonosgopi ..... 35
Cyfraddau canfod ..... 36
Amseroedd aros ar gyfer apwyntiad colonosgopi mynegeio/sigmoidosgopi hyblyg ..... 38
Presenoldeb mewn sganiau Colonagraffeg Tomograffeg Gyfrifiadurol ..... 39
Diffiniadau ..... 40
Tîm cynhyrchu ..... 43
Manylion cyswllt y rhaglen ..... 44

# Tablau

Tabl 1: Cwmpas Sgrinio Coluddion (o fewn 2.5 mlynedd) yn ôl rhywedd a bwrdd iechyd preswyl, ar 1 Hydref 2023 ..... 13
Tabl 2: Cwmpas Sgrinio Coluddion (o fewn 2.5 mlynedd) yn ôl cwintel amddifadedd a bwrdd iechyd preswyl, ar 1 Hydref 2023 ..... 15
Tabl 3: Cwmpas Sgrinio Coluddion Cymru Gyfan - Cymhariaeth Hanesyddol ..... 17
Tabl 4: Canran y rhai a gafodd brawf sgrinio'r Coluddyn yn ôl rhywedd a bwrdd iechyd preswyl, 2022-23 ..... 19

Tabl 5: Canran y rhai a gafodd brawf sgrinio'r Coluddyn (%) yn ôl cwintel amddifadedd a bwrdd iechyd preswyl, 2022-23 ........ 21
Tabl 6: Canran y rhai a gafodd brawf Sgrinio Coluddyn Cymru Gyfan - Cymhariaeth Hanesyddol ..... 23
Tabl 7: Canran y rhai a gafodd brawf Sgrinio'r Coluddyn Cymru Gyfan (%) yn ôl mis y gwahoddiad, 2022-23 ........ 24
Tabl 8: Canran y rhai a gafodd brawf Sgrinio'r Coluddyn Cymru Gyfan yn ôl Math o Ailalw, 2022-23.. ........ 25
Tabl 9: Canran y rhai a gafodd brawf Sgrinio'r Coluddyn Cymru Gyfan yn ôl Math o Ailalw, tuedd tair blynedd ........ 26
Tabl 10: Nifer y cyfranogwyr benywaidd a wahoddwyd ar gyfer sgrinio coluddion – yn ôl oedran a bwrdd iechyd preswyl, 2022-23 ........ 28
Tabl 11: Nifer y cyfranogwyr gwrywaidd a wahoddwyd ar gyfer sgrinio coluddion yn ôl oedran a bwrdd iechyd preswyl, 2022-23 ........ 29
Tabl 12: Cyfanswm nifer y cyfranogwyr a wahoddwyd ar gyfer sgrinio coluddion yn ôl oedran a bwrdd iechyd preswyl, 2022-23 ........ 30
Tabl 13: Nifer y profion sgrinio coluddion a awdurdodwyd yn ôl canlyniad a bwrdd iechyd preswyl 32
Tabl 14: Amser aros ar gyfer canlyniadau prawf sgrinio, o dderbyn y prawf hyd at ganlyniad wedi'i awdurdodi, 2022-23 ........ 34
Tabl 15: Presenoldeb mewn colonosgopi mynegeio/sigmoidosgopi hyblyg yn ôl Bwrdd Iechyd preswyl, 2022-23 ........ 35
Tabl 16: Cyfraddau canfod, tuedd tair blynedd ........ 37

# Ffigurau

Ffigur 1: Llwybr ar gyfer sgrinio'r coluddyn ........ 9
Ffigur 2: Cwmpas Sgrinio Coluddion (o fewn 2.5 mlynedd) yn ôl Bwrdd Iechyd preswyl, ar 1 Hydref 2023 ........ 14
Ffigur 3: Cwmpas Sgrinio Coluddion (o fewn 2.5 mlynedd) yn ôl cwintel amddifadedd a bwrdd iechyd preswyl, ar 1 Hydref 2023 ........ 16
Ffigur 4: Canran y rhai a gafodd brawf Sgrinio'r Coluddyn yn ôl bwrdd iechyd preswyl, 2022-23...... 20
Ffigur 5: Canran y rhai a gafodd brawf sgrinio'r Coluddyn (%) yn ôl cwintel amddifadedd a bwrdd iechyd preswyl, 2022-23 ........ 22

# Negeseuon allweddol

- Mae sgrinio'r coluddyn yn lleihau'r risg o farw o ganser y coluddyn;
- Yn ystod rhan gynharach y cyfnod adrodd hwn, gwahoddwyd dynion a menywod 58 i 74 oed i gymryd rhan bob dwy flynedd. Cafodd yr ystod oedran ei hymestyn i 55 i 74 oed o fis Hydref 2022, gan ddefnyddio dull fesul cam fel mai dim ond tua hanner y rhai a oedd newydd ddod yn gymwys a wahoddwyd i gael eu sgrinio yn ystod y cyfnod adrodd hwn
- Gall pobl deimlo'n iach hyd yn oed os oes ganddynt ganser y coluddyn. Mae canfod canser yn gynnar yn rhoi'r cyfle gorau i oroesi;
- Mae sgrinio coluddion yn defnyddio prawf am ddim gan y GIG y gellir ei gwblhau'n hawdd gartref;
- Bydd sgrinio yn methu rhai canserau ac ni ellir gwella rhai canserau;
- Dewis yr unigolyn yw cymryd rhan mewn sgrinio coluddyn. Rydym yn annog pobl a wahoddir i gael eu sgrinio i ddarllen y pecyn gwybodaeth yn ofalus i'w helpu i wneud eu penderfyniad.

# Cyflwyniad

## Cefndir

Dyma'r degfed adroddiad ystadegol blynyddol a gyhoeddir gan Sgrinio Coluddion Cymru. Mae'r adroddiad hwn yn cwmpasu data ar gyfer blwyddyn ariannol 2022-23.

Cafodd Sgrinio Coluddion Cymru ei lansio ym mis Hydref 2008 gyda'r nod o leihau nifer y bobl sy'n marw o ganser y coluddyn yn y grŵp o bobl a wahoddir i gael eu sgrinio yng Nghymru. Mae'r rhaglen sgrinio coluddion yn nodi canserau'r coluddyn yn gynnar pan fo triniaeth yn fwy tebygol o fod yn llwyddiannus a hefyd yn dileu tyfiannau cyn-ganseraidd a allai ddatblygu'n ganser dros gyfnod o amser. Yn y flwyddyn 2022-23 rhoddodd Sgrinio Coluddion Cymru ddiagnosis o ganser y coluddyn i 376 o bobl a thynnwyd polypau o 2,733 o gyfranogwyr sgrinio.

Nododd Adroddiad Blynyddol 2022 o Archwiliad Canser y Coluddyn Cenedlaethol[1] fod 10% o gleifion a gafodd diagnosis o ganser y coluddyn eu hatgyfeirio drwy raglenni sgrinio yng Nghymru a Lloegr. Roedd gan bobl â ganser a ganfuwyd trwy sgrinio glefyd llai datblygedig ac roeddent yn fwy heini ar y cyfan. O ganlyniad, cafodd 86% o gleifion a gafodd ddiagnosis drwy sgrinio driniaeth iachaol o gymharu â 50% a gyflwynodd fel argyfwng.

### Cymhwystra presennol

O 5 Hydref 2022, gwahoddodd Sgrinio Coluddion Cymru unigolion rhwng 55 a 74 oed i gael sgrinio canser y coluddyn bob dwy flynedd.

### Ffynonellau gwybodaeth ychwanegol

2020 NBOCAP: https://www.nboca.org.uk/content/uploads/2020/12/NBOCA-2020-Annual-Report.pdf

Gwefan Sgrinio Coluddion Cymru: https://icc.gig.cymru/gwasanaethau-a-thimau/sgrinio/sgrinio-coluddion-cymru/

### Lleoliadau sgrinio

Mae Sgrinio Coluddion Cymru yn cynnig casglu samplau gartref drwy'r pecyn prawf sgrinio, gydag unrhyw ymchwiliadau pellach yn cael eu cynnal yn ysbytai'r byrddau iechyd ledled Cymru.

## Crynodeb o'r gweithgarwch yn y flwyddyn a adroddwyd

Yn ystod y cyfnod adrodd hwn, ehangodd Sgrinio Coluddion Cymru yr ystod oedran cymwys ar gyfer sgrinio canser y coluddyn yng Nghymru. O fis Hydref 2022, dechreuwyd gwahodd unigolion rhwng 55 a 57 oed i gael eu sgrinio am y tro cyntaf (ystod oedran poblogaeth gymwys 55-74 oed). Cafodd y broses hon o ehangu'r oedran ei chyflwyno fesul cam, a chafodd tua 50% o'r rhai 55-57 oed a oedd newydd ddod yn gymwys eu gwahodd erbyn diwedd mis Mawrth 2023. Yn hyn o beth, bydd y data a gyflwynir yn yr adroddiad hwn yn ymwneud ag unigolion 58-74 oed rhwng mis Ebrill 2022 a mis Medi 2022 a 55-74 oed rhwng mis Hydref 2022 a mis Mawrth 2023.

## Edrych ymlaen at y flwyddyn sgrinio nesaf

Mae'r ehangu oedran a ddisgrifiwyd uchod yn rhan o gynllun tymor hwy (4 blynedd) i ehangu'r oedran sgrinio cymwys i 50-74 oed.  O fis Hydref 2023, cafodd yr oedran sgrinio cymwys ei ehangu ymhellach i gynnwys y rhai o 51 oed, a bydd yn cynnwys y rhai o 50 oed o fis Hydref 2024. Yn ystod y cyfnod amser hwn mae Sgrinio Coluddion Cymru hefyd wedi cynyddu sensitifrwydd y prawf imiwnocemegol ar ysgarthion (FIT), gyda chynlluniau pellach i gynyddu hyn yn y dyfodol.

# Cyflawni'r rhaglen

Mae Adran Sgrinio Iechyd Cyhoeddus Cymru yn gyfrifol am reoli, cyflawni a sicrhau ansawdd y rhaglen. Mae'r rhaglen yn cael ei harwain gan Ymgynghorydd mewn Meddygaeth Iechyd Cyhoeddus a'i harwain gan Bennaeth Rhaglen. Mae'r rhaglen sgrinio coluddion yn cael ei chyflawni gan staff amlddisgyblaethol, gan gynnwys colonosgopyddion sgrinio, patholegwyr, radiolegwyr, staff nyrsio, gweinyddol a labordy. Mae'r rhaglen yn cael ei chefnogi gan Gynghorwyr Sicrhau Ansawdd ar gyfer colonosgopi, patholeg, biocemeg, radioleg a llawfeddygaeth.

# Llwybr sgrinio

Nodir cyfranogwyr cymwys o System Demograffig Cymru a'u gwahodd i gael eu sgrinio.

Mae'r gwahoddiad yn seiliedig ar ddyddiad geni ac mae'n cynnwys llythyr a phecyn gwybodaeth ynghyd â'r prawf i'w gwblhau. Anfonir y prawf at bobl gymwys drwy'r post i'w gwblhau gartref a'i ddychwelyd i'r labordy sgrinio canolog drwy'r post yn yr amlen ragdaledig a ddarperir.


Nid oes angen i bobl â chanlyniadau profion sgrinio negatif gael ymchwiliadau pellach ar yr adeg honno. Mae'r unigolion hyn yn cael eu dychwelyd i ailalw rheolaidd a'u gwahodd eto i gael eu sgrinio ddwy flynedd yn ddiweddarach, os ydynt yn parhau yn yr ystod oedran cymwys.

Mae angen ymchwiliadau pellach ar gyfranogwyr â chanlyniadau positif ac fe'u gwahoddir am asesiad o'u ffitrwydd ar gyfer colonosgopi gydag Ymarferydd Sgrinio. Mae'r nyrsys arbenigol hyn wedi'u lleoli

mewn ysbytai ledled Cymru a chynhelir y rhan fwyaf o asesiadau dros y ffôn, ond mae apwyntiadau wyneb yn wyneb ar gael ar gais neu os yw'r Ymarferydd Sgrinio o'r farn bod hyn yn angenrheidiol.

Os ystyrir ei fod yn ffit yn feddygol, cynigir colonosgopi i'r cyfranogwr ac, os caiff ei dderbyn, cynhelir hyn mewn ysbyty sy'n lleol i'r cyfranogwr. Yn dibynnu ar y canfyddiadau ar ôl colonosgopi, mae'r cyfranogwyr naill ai; yn cael eu dychwelyd i ailalw rheolaidd; yn cael eu rhoi ar raglen wyliadwriaeth yn ôl nifer a maint y polypau a nodwyd; neu'n cael eu hatgyfeirio i'r tîm amlddisgyblaethol yn dilyn diagnosis o ganser.

Os nad yw cyfranogwr yn addas i gael colonosgopi, bydd sgan Colonagraffeg Tomograffeg Gyfrifiadurol (CTC) yn cael ei gynnig fel arfer.




Ffigur 1: Llwybr ar gyfer sgrinio'r coluddyn

# Penawdau ystadegol

Mae'r adroddiad hwn yn cwmpasu'r cyfnod amser rhwng mis Ebrill 2022 a mis Mawrth 2023.

- Cwmpas sgrinio coluddion ar 1 Hydref 2023 oedd 63.1%.
- Roedd y cwmpas ar 1 Hydref 2023 yn amrywio o 62.2% ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe i 64.4% ym Mwrdd Iechyd Addysgu Powys.
- Canran y rhai a gafodd eu sgrinio ar gyfer cyfranogwyr a wahoddwyd (ac yn gymwys) rhwng mis Ebrill 2022 a mis Mawrth 2023 oedd 65.9%.
- Roedd y ganran a gafodd brawf yn 2022-23 yn amrywio o 65.0% ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe i 67.7% ym Mwrdd Iechyd Addysgu Powys.
- Roedd cwmpas a chyfraddau'r rhai a gafodd brawf yn uwch ymhlith menywod. Roedd y cwmpas yn 65.1% mewn menywod o gymharu â 61.2% mewn dynion, roedd canran y rhai a gafodd brawf sgrinio yn 68.1% mewn menywod o gymharu â 63.7% mewn dynion.
- Roedd y cwmpas a'r ganran a gafodd brawf sgrinio hefyd yn uwch ymhlith y rhai sy'n byw yn yr ardaloedd â'r amddifadedd lleiaf (69.6% a 72.8% yn y drefn honno yn yr ardaloedd â'r amddifadedd lleiaf o gymharu â 54.4% a 56.6% yn y drefn honno yn yr ardaloedd â'r amddifadedd mwyaf).
- gwahoddwyd[1] 417,683 o gyfranogwyr i gael prawf sgrinio'r coluddyn.
- cafodd 269,240 o brofion eu hawdurdodi ac o'r rhain roedd 2.1% wedi'u gwrthod gan nad oedd modd eu profi.
- rhoddwyd canlyniad diffiniol ar gyfer 263,516 o brofion, ac o'r rhain roedd 98.1% yn negatif ac roedd 1.9% yn bositif.
- Cafodd llythyr canlyniad ei anfon at 100% o'r cyfranogwyr o fewn wythnos (llai na saith diwrnod calendr) i'w dderbyn gan y labordy.
- Ledled Cymru, cynigiwyd triniaeth ddiagnostig (colonosgopi neu sigmoidosgopi hyblyg) i 15.2% o gyfranogwyr o fewn pedair wythnos i gysylltu â Sgrinio Coluddion Cymru i drefnu'r apwyntiad gydag Ymarferydd Sgrinio.
- Cynigiwyd triniaeth ddiagnostig i 63.2% o gyfranogwyr â chanlyniad sgrinio positif o fewn wyth wythnos.
- Roedd presenoldeb yn y driniaeth ddiagnostig gyntaf yn 95.0% gyda 3,725 o gyfranogwyr yn mynd i'r driniaeth gyntaf.

[1] Nid yw'r nifer hwn a wahoddwyd yr un peth â chyfranogwyr a wahoddwyd *ac* sy'n gymwys a ddefnyddiwyd ar gyfer cyfrifiadau canran y rhai a gafodd brawf

- Yn y driniaeth ddiagnostig gyntaf, y gyfradd canfod canser oedd 10.1%, y gyfradd canfod polyp oedd 73.4% a'r gyfradd canfod adenoma oedd 56.7%.
- Cafodd 376 o gyfranogwyr ddiagnosis o ganser a chanfuwyd a thynnwyd polypau mewn 2,733 o gyfranogwyr.
- Ledled Cymru, aethpwyd i 91.4% o sganiau Colonagraffeg Tomograffeg Gyfrifiadurol (CTC) a drefnwyd.

# Data

## Cwmpas

### Diffiniad a safon

Ar gyfer cyfrifo cwmpas, cyfranogwyr cymwys yw'r rhai sy'n byw yng Nghymru ar adeg cyflwyno adroddiad, nad ydynt wedi gorffen cael gwahoddiad ar hyn o bryd neu nad ydynt wedi'u hatal rhag cael gwahoddiad sgrinio coluddyn yn dilyn cael gwybod am ddiagnosis o gyflwr y coluddyn, symud allan o Gymru neu farwolaeth a rhwng yr ystod oedran gwahoddiad 55 i 74 oed.

Cafodd cwintelau amddifadedd eu pennu drwy ddefnyddio Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALlC) 2019, a'u mesur ar lefel ardal cynnyrch ehangach haen is. Mae ardaloedd cynnyrch ehangach haen is wedi'u graddio i gwintelau Cymru gyfan er mwyn gallu eu cymharu rhwng byrddau iechyd. Mae hyn yn golygu na fydd cyfran gyfartal o bobl ym mhob cwintel wrth archwilio data bwrdd iechyd unigol (e.e. yn Sir Fynwy, mae 40% o'r boblogaeth yn byw yn y cwintel â'r amddifadedd lleiaf yng Nghymru, ond nid oes unrhyw ardaloedd yn y cwintel â'r amddifadedd mwyaf yng Nghymru).

Mae'r cyfrifiad yn cyfrif y cyfranogwyr cymwys hynny y mae eu prawf sgrinio canser y coluddyn wedi'i ddadansoddi a'i awdurdodi gan y labordy o fewn dwy flynedd a hanner i'r dyddiad adrodd.

Y Safon: Bydd o leiaf 60% o bobl gymwys wedi cymryd rhan yn y rhaglen sgrinio o fewn y 2.5 mlynedd diwethaf.

### Canlyniad ar gyfer 2022-2023

Ar lefel Cymru gyfan, canran y rhai a gafodd eu sgrinio oedd 63.1%

### Tuedd tair blynedd

Y cwmpas ar lefel Cymru gyfan oedd 63.1% yn 2022-23, 63.9% yn 2021-22, a 63.2% yn 2020-21.

### Sylw


Ar lefel Cymru gyfan, gostyngodd y cwmpas ychydig bach (0.8%) yn 2022-23 o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol ond mae'n debyg i 2020-21.

## Ffigurau a thablau

### Tabl 1: Cwmpas Sgrinio Coluddion (o fewn 2.5 mlynedd) yn ôl rhywedd a bwrdd iechyd preswyl, ar 1 Hydref 2023

| | Cyfanswm | | | Menywod | | | Dynion | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Bwrdd Iechyd | Cymwys | Sgriniwyd o fewn 2.5 mlynedd | % Cymwys | Cymwys | Sgriniwyd o fewn 2.5 mlynedd | % Cymwys | Cymwys | Sgriniwyd o fewn 2.5 mlynedd | % Cymwys |
| BIP Aneurin Bevan | 150,732 | 95,427 | **63.3** | 75,909 | 49,615 | **65.4** | 74,823 | 45,812 | **61.2** |
| BIP Betsi Cadwaladr | 188,123 | 118,856 | **63.2** | 95,259 | 62,137 | **65.2** | 92,864 | 56,719 | **61.1** |
| BIP Caerdydd a'r Fro | 108,776 | 68,219 | **62.7** | 54,632 | 35,482 | **64.9** | 54,144 | 32,737 | **60.5** |
| BIP Cwm Taf Morgannwg | 111,293 | 69,654 | **62.6** | 56,189 | 35,887 | **63.9** | 55,104 | 33,767 | **61.3** |
| BIP Hywel Dda | 111,509 | 71,561 | **64.2** | 56,640 | 37,596 | **66.4** | 54,868 | 33,964 | **61.9** |
| BI Addysgu Powys | 41,188 | 26,531 | **64.4** | 20,772 | 13,953 | **67.2** | 20,416 | 12,578 | **61.6** |
| BIP Bae Abertawe | 95,943 | 59,681 | **62.2** | 48,591 | 30,870 | **63.5** | 47,352 | 28,811 | **60.8** |
| Anhysbys | 339 | 191 | **56.3** | 168 | 102 | **60.7** | 171 | 89 | **52.0** |
| Cymru Gyfan | 807,903 | 510,120 | 63.1 | 408,160 | 265,642 | 65.1 | 399,742 | 244,477 | 61.2 |

lle nad yw cod post preswyl yn hysbys nid yw'n bosibl iddo gael ei gysylltu â chwintel neu Fwrdd Iechyd. Felly mae'n cael ei gategoreiddio fel anhysbys.





Ffigur 2: Cwmpas Sgrinio Coluddion (o fewn 2.5 mlynedd) yn ôl Bwrdd Iechyd preswyl, ar 1 Hydref 2023

Tabl 2: Cwmpas Sgrinio Coluddion (o fewn 2.5 mlynedd) yn ôl cwintel amddifadedd a bwrdd iechyd preswyl, ar 1 Hydref 2023

| | Cwmpas % | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Bwrdd Iechyd | C1 - amddifadedd mwyaf | C2 | C3 | C4 | C5 - amddifadedd lleiaf | Cyfanswm cwmpas |
| BIP Aneurin Bevan | 55.5 | 61.5 | 63.7 | 67.7 | 70.5 | **63.3** |
| BIP Betsi Cadwaladr | 52.7 | 58.4 | 62.8 | 65.8 | 68.4 | **63.2** |
| BIP Caerdydd a'r Fro | 51.2 | 56.4 | 59.7 | 64.0 | 70.2 | **62.7** |
| BIP Cwm Taf Morgannwg | 56.4 | 61.3 | 62.6 | 66.1 | 70.9 | **62.6** |
| BIP Hywel Dda | 55.7 | 61.6 | 64.1 | 67.1 | 68.5 | **64.2** |
| BI Addysgu Powys | 56.2 | 59.8 | 63.4 | 65.8 | 67.7 | **64.4** |
| BIP Bae Abertawe | 54.4 | 60.2 | 62.0 | 65.9 | 69.1 | **62.2** |
| Anhysbys | Dd/B | Dd/B | Dd/B | Dd/B | Dd/B | **56.3** |
| Cymru Gyfan | 54.4 | 60.2 | 63.0 | 66.2 | 69.6 | 63.1 |

Lle nad yw cod post preswyl yn hysbys nid yw'n bosibl iddo gael ei gysylltu â chwintel neu fwrdd iechyd. Felly mae'n cael ei gategoreiddio fel anhysbys.




Ffigur 3: Cwmpas Sgrinio Coluddion (o fewn 2.5 mlynedd) yn ôl cwintel amddifadedd a bwrdd iechyd preswyl, ar 1 Hydref 2023

Tabl 3: Cwmpas Sgrinio Coluddion Cymru Gyfan - Cymhariaeth Hanesyddol

| Blwyddyn | Cymwys | Profwyd | % Cwmpas |
|---|---|---|---|
| 2015-16 | 540,022 | 279,308 | 51.7 |
| 2016-17 | 545,623 | 281,321 | 51.6 |
| 2017-18 | 550,971 | 294,121 | 53.4 |
| 2018-19 | 555,549 | 309,303 | 55.7 |
| 2019-20 | 546,106 | 321,695 | 58.9 |
| 2020-21 | 572,681 | 361,846 | 63.2 |
| 2021-22 | 664,439 | 424,573 | 63.9 |
| 2022-23 | 807,903 | 510,120 | 63.1 |

# Canran y rhai a gafodd eu sgrinio yn ôl bwrdd iechyd preswyl

## Diffiniad a safon

Ar gyfer cyfrifo canran y rhai a gafodd eu sgrinio, cyfranogwyr cymwys yw'r rhai a oedd yn byw yng Nghymru (heb eu didynnu ar NHAIS yn y chwe mis yn dilyn gwahoddiad) ac a gafodd eu gwahodd i sgrinio'r coluddyn yn ystod dyddiad y cyfnod adrodd. Cafodd cyfranogwyr a oedd wedi gorffen cael gwahoddiad i sgrinio'r coluddyn neu wedi'u hatal rhag hynny yn dilyn diagnosis o gyflwr y coluddyn, wedi symud allan o Gymru neu farwolaeth, o fewn chwe mis yn dilyn gwahoddiad eu heithrio, oni bai eu bod wedi dychwelyd prawf wedi'i ddefnyddio.

Tybiwyd bod cyfranogwyr wedi ymateb i'w gwahoddiad os oedd y rhaglen sgrinio coluddion wedi derbyn prawf a ddefnyddiwyd o fewn chwe mis yn dilyn eu gwahoddiad.

Cafodd cwintelau amddifadedd eu pennu drwy ddefnyddio Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALlC) 2019, a'u mesur ar lefel ardal cynnyrch ehangach haen is. Mae ardaloedd cynnyrch ehangach haen is wedi'u graddio i gwintelau Cymru gyfan er mwyn gallu eu cymharu rhwng byrddau iechyd. Mae hyn yn golygu na fydd cyfran gyfartal o bobl ym mhob cwintel pan fyddwch yn ystyried pob bwrdd iechyd e.e. yn Sir Fynwy, mae 40% o'r boblogaeth yn byw yn y cwintel â'r amddifadedd lleiaf yng Nghymru, ond nid oes unrhyw ardaloedd yn y cwintel â'r amddifadedd mwyaf yng Nghymru.

Y Safon: Isafswm o 60% o gyfranogwyr a wahoddwyd yn dychwelyd prawf wedi'i gwblhau o fewn chwe mis i'r gwahoddiad.

## Canlyniad ar gyfer 2022-2023

Ar lefel Cymru gyfan, canran y rhai a gafodd eu sgrinio oedd 65.9%

## Tuedd tair blynedd

Canran y rhai a gafodd eu sgrinio ar lefel Cymru gyfan oedd 65.9% yn 2022-23, 67.2% yn 2021-22, a 67.1% yn 2020-21.

## Sylw

Ar lefel Cymru gyfan, gostyngodd canran y rhai a gafodd eu sgrinio yn 2022-23 (1.3%, 1.2%) o gymharu â'r blynyddoedd blaenorol.


Mae'r rhaglen yn gweithio'n agos gyda phartneriaid i gynyddu canran y rhai sy'n cael eu sgrinio ar draws y boblogaeth yn ogystal ag yn benodol mewn grwpiau lle mae canran y rhai sy'n cael eu sgrinio yn isel.

## Ffigurau a thablau

### Tabl 4: Canran y rhai a gafodd brawf sgrinio'r Coluddyn yn ôl rhywedd a bwrdd iechyd preswyl, 2022-23

| | Cyfanswm | | | Menywod | | | Dynion | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Bwrdd Iechyd | Cymwys | Ymatebwyd | % y rhai a gafodd brawf | Cymwys | Ymatebwyd | % y rhai a gafodd brawf | Cymwys | Ymatebwyd | % y rhai a gafodd brawf |
| BIP Aneurin Bevan | 77,750 | 51,480 | **66.2** | 39,037 | 26,717 | **68.4** | 38,713 | 24,763 | **64.0** |
| BIP Betsi Cadwaladr | 96,444 | 63,527 | **65.9** | 48,616 | 33,178 | **68.2** | 47,828 | 30,349 | **63.5** |
| BIP Caerdydd a'r Fro | 55,424 | 36,269 | **65.4** | 27,820 | 18,959 | **68.1** | 27,604 | 17,310 | **62.7** |
| BIP Cwm Taf Morgannwg | 57,368 | 37,468 | **65.3** | 28,905 | 19,264 | **66.6** | 28,463 | 18,204 | **64.0** |
| BIP Hywel Dda | 56,716 | 37,935 | **66.9** | 28,880 | 19,995 | **69.2** | 27,835 | 17,939 | **64.4** |
| BI Addysgu Powys | 20,964 | 14,183 | **67.7** | 10,534 | 7,444 | **70.7** | 10,430 | 6,739 | **64.6** |
| BIP Bae Abertawe | 49,219 | 31,975 | **65.0** | 24,877 | 16,551 | **66.5** | 24,342 | 15,424 | **63.4** |
| Anhysbys | 147 | 91 | **61.9** | 73 | 49 | **67.1** | 74 | 42 | **56.8** |
| Cymru Gyfan | 414,032 | 272,928 | 65.9 | 208,742 | 142,157 | 68.1 | 205,289 | 130,770 | 63.7 |

Lle nad yw cod post preswyl yn hysbys nid yw'n bosibl iddo gael ei gysylltu â chwintel neu fwrdd iechyd. Felly mae'n cael ei gategoreiddio fel anhysbys.





Ffigur 4: Canran y rhai a gafodd brawf Sgrinio'r Coluddyn yn ôl bwrdd iechyd preswyl, 2022-23

Tabl 5: Canran y rhai a gafodd brawf sgrinio'r Coluddyn (%) yn ôl cwintel amddifadedd a bwrdd iechyd preswyl, 2022-23

| | Y rhai a gafodd brawf % | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Bwrdd Iechyd | C1 - amddifadedd mwyaf | C2 | C3 | C4 | C5 - amddifadedd lleiaf | % y rhai a gafodd eu sgrinio |
| BIP Aneurin Bevan | 58.0 | 63.9 | 67.1 | 70.8 | 74.0 | **66.2** |
| BIP Betsi Cadwaladr | 54.6 | 60.9 | 65.6 | 68.8 | 71.2 | **65.9** |
| BIP Caerdydd a'r Fro | 52.8 | 59.0 | 62.2 | 67.0 | 73.5 | **65.4** |
| BIP Cwm Taf Morgannwg | 58.8 | 63.6 | 65.5 | 69.3 | 74.4 | **65.3** |
| BIP Hywel Dda | 57.7 | 63.9 | 66.8 | 70.2 | 71.8 | **66.9** |
| BI Addysgu Powys | 58.7 | 64.1 | 66.8 | 69.0 | 70.3 | **67.7** |
| BIP Bae Abertawe | 56.9 | 62.6 | 65.1 | 68.6 | 72.3 | **65.0** |
| Anhysbys | Dd/B | Dd/B | Dd/B | Dd/B | Dd/B | **61.9** |
| **Cymru Gyfan** | **56.6** | **62.7** | **65.9** | **69.3** | **72.8** | **65.9** |

lle nad yw cod post preswyl yn hysbys nid yw'n bosibl iddo gael ei gysylltu â chwintel neu Fwrdd Iechyd. Felly mae'n cael ei gategoreiddio fel anhysbys.




Ffigur 5: Canran y rhai a gafodd brawf sgrinio'r Coluddyn (%) yn ôl Cwintel Amddifadedd a Bwrdd Iechyd preswyl, 2022-23

Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales

Tabl 6: Canran y rhai a gafodd brawf Sgrinio Coluddyn Cymru Gyfan - Cymhariaeth Hanesyddol

| Blwyddyn | Cymwys | Profwyd | % y rhai a gafodd brawf |
|---|---|---|---|
| 2015-16 | 281,082 | 152,794 | 54.4 |
| 2016-17 | 274,738 | 146,592 | 53.4 |
| 2017-18 | 283,106 | 157,594 | 55.7 |
| 2018-19 | 280,556 | 160,652 | 57.3 |
| 2019-20 | 273,045 | 167,986 | 61.5 |
| 2020-21 | 223,667 | 150,161 | 67.1 |
| 2021-22 | 354,131 | 238,065 | 67.2 |
| 2022-23 | 414,032 | 272,928 | 65.9 |

Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales

Tabl 7: Canran y rhai a gafodd brawf Sgrinio'r Coluddyn Cymru Gyfan (%) yn ôl mis y gwahoddiad, 2022-23

| Blwyddyn Gwahodd | Mis Gwahodd | Cymwys | Profwyd | % y rhai a gafodd brawf |
|---|---|---|---|---|
| 2022 | Ebrill | 30004 | 20435 | 68.1 |
| 2022 | Mai | 25638 | 18447 | 72.0 |
| 2022 | Mehefin | 33139 | 21704 | 65.5 |
| 2022 | Gorffennaf | 25221 | 16590 | 65.8 |
| 2022 | Awst | 31529 | 19791 | 62.8 |
| 2022 | Medi | 25089 | 16801 | 67.0 |
| 2022 | Hydref | 37917 | 24150 | 63.7 |
| 2022 | Tachwedd | 46812 | 30065 | 64.2 |
| 2022 | Rhagfyr | 35070 | 22586 | 64.4 |
| 2023 | Ionawr | 39968 | 26815 | 67.1 |
| 2023 | Chwefror | 37068 | 25014 | 67.5 |
| 2023 | Mawrth | 46577 | 30530 | 65.5 |
| Cyfanswm | | 414032 | 272928 | 65.9 |

# Sgrinio yn ôl math o ailalw

## Diffiniad a safon

Ar gyfer cyfrifo canran y rhai a gafodd eu sgrinio, cyfranogwyr cymwys yw'r rhai a oedd yn byw yng Nghymru (heb eu didynnu ar NHAIS yn y chwe mis yn dilyn gwahoddiad) ac a gafodd eu gwahodd i sgrinio'r coluddyn yn ystod dyddiad y cyfnod adrodd. Cafodd cyfranogwyr a oedd wedi gorffen cael gwahoddiad i sgrinio'r coluddyn neu wedi'u hatal rhag hynny yn dilyn diagnosis o gyflwr y coluddyn, wedi symud allan o Gymru neu farwolaeth, o fewn chwe mis yn dilyn gwahoddiad eu heithrio, oni bai eu bod wedi dychwelyd prawf wedi'i ddefnyddio.

Tybiwyd bod cyfranogwyr wedi ymateb i'w gwahoddiad os oedd y rhaglen sgrinio coluddion wedi derbyn prawf a ddefnyddiwyd o fewn chwe mis yn dilyn eu gwahoddiad.

Rownd Bennaf - gwahoddiad cyntaf: Gwahoddiad cyntaf yn y rownd bennaf yw'r tro cyntaf y gwahoddir person i gymryd rhan mewn sgrinio. Nid ydynt wedi'u sgrinio yn flaenorol am nad ydynt wedi'u gwahodd yn flaenorol.

Rownd bennaf - gwahoddiad dilynol: Gwahoddiad dilynol y rownd bennaf yw pan fydd person wedi'i wahodd yn flaenorol, ond nad yw wedi cymryd rhan mewn sgrinio yn flaenorol. Nid ydynt wedi'u sgrinio yn flaenorol ond maent wedi'u gwahodd yn flaenorol.

Rownd Digwyddiad: Y rownd digwyddiad yw pan fydd pobl sydd wedi'u gwahodd yn flaenorol, ac sydd wedi derbyn y cynnig, wedyn yn cael eu hailwahodd i gael eu sgrinio.

Y Safon: Isafswm o 60% o gyfranogwyr a wahoddwyd yn dychwelyd prawf wedi'i gwblhau o fewn chwe mis i'r gwahoddiad.

## Canlyniad ar gyfer 2022-2023

### Tabl 8: Canran y rhai a gafodd brawf Sgrinio'r Coluddyn Cymru Gyfan yn ôl Math o Ailalw, 2022-23

| | Rownd Bennaf - Gwahoddiad Cyntaf | | | Rownd Bennaf - Gwahoddiad(au) dilynol | | | Rownd Digwyddiad | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Blwyddyn | Cymwys | Profwyd | % y rhai a gafodd brawf | Cymwys | Profwyd | % y rhai a gafodd brawf | Cymwys | Profwyd | % y rhai a gafodd brawf |
| **2022-23** | 205,701 | 129,694 | **63.0** | 61,070 | 10,319 | **16.9** | 147,261 | 132,915 | **90.3** |

## Tuedd tair blynedd

### Tabl 9: Canran y rhai a gafodd brawf Sgrinio'r Coluddyn Cymru Gyfan yn ôl Math o Ailalw, tuedd tair blynedd

| | Rownd Bennaf - Gwahoddiad Cyntaf | | | Rownd Bennaf - Gwahoddiad(au) dilynol | | | Rownd Digwyddiad | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Blwyddyn | Cymwys | Profwyd | % y rhai a gafodd brawf | Cymwys | Profwyd | % y rhai a gafodd brawf | Cymwys | Profwyd | % y rhai a gafodd brawf |
| **2022-23** | 205,701 | 129,694 | **63.0** | 61,070 | 10,319 | **16.9** | 147,261 | 132,915 | **90.3** |
| **2021-22** | 68,961 | 44,283 | **64.2** | 94,478 | 20,809 | **22.0** | 190,692 | 172,973 | **90.7** |
| **2020-21** | 49,434 | 32,585 | **65.9** | 62,147 | 15,826 | **25.5** | 112,086 | 101,750 | **90.8** |

## Sylw

Mae canran y rhai a gafodd eu sgrinio ar ei huchaf yn y rhai sydd wedi cymryd rhan mewn sgrinio canser y coluddyn yn flaenorol (rownd digwyddiad) ac ar ei hisaf yn y rhai sydd wedi'u gwahodd yn flaenorol ond nad ydynt wedi cymryd rhan (rownd bennaf - gwahoddiad dilynol). Mae'r duedd hon wedi bod yn gyson dros y tair blynedd diwethaf.

# Cyfranogwyr a wahoddwyd

## Diffiniad a safon

Dim diffiniad na safon

## Canlyniad ar gyfer 2022-2023

Gwahoddwyd 417,683 o gyfranogwyr, 55 i 74 oed.

## Tuedd tair blynedd

Gwahoddwyd 417,683 o gyfranogwyr, 55 i 74 oed yn 2022-23;

Gwahoddwyd 356,851 o gyfranogwyr, 58 i 74 oed yn 2021-22;

Gwahoddwyd 220,550 o gyfranogwyr, 60 i 74 oed yn 2020-21.

## Ffigurau a thablau

### Tabl 10: Nifer y cyfranogwyr benywaidd a wahoddwyd ar gyfer sgrinio coluddion – yn ôl oedran a bwrdd iechyd preswyl, 2022-23

| Cyfranogwyr Benywaidd | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Bwrdd Iechyd** | **55-57 oed** | **58-59 oed** | **60-64 oed** | **65-69 oed** | **70-74 oed** | **Cyfanswm a wahoddwyd** |
| BIP Aneurin Bevan | 8,409 | 9,741 | 8,351 | 5,898 | 6,917 | **39,316** |
| BIP Betsi Cadwaladr | 10,027 | 11,969 | 10,482 | 7,642 | 8,896 | **49,016** |
| BIP Caerdydd a'r Fro | 6,050 | 7,110 | 6,104 | 4,185 | 4,593 | **28,042** |
| BIP Cwm Taf Morgannwg | 6,150 | 7,280 | 6,408 | 4,113 | 5,146 | **29,097** |
| BIP Hywel Dda | 5,641 | 7,081 | 6,424 | 4,568 | 5,359 | **29,073** |
| BI Addysgu Powys | 2,108 | 2,525 | 2,330 | 1,746 | 1,916 | **10,625** |
| BIP Bae Abertawe | 5,049 | 6,152 | 5,532 | 3,854 | 4,445 | **25,032** |
| Anhysbys | 14 | 11 | 24 | 12 | 12 | **73** |
| **Cymru Gyfan** | **43,448** | **51,869** | **45,655** | **32,018** | **37,284** | **210,274** |

Tabl 11: Nifer y cyfranogwyr gwrywaidd a wahoddwyd ar gyfer sgrinio coluddion yn ôl oedran a bwrdd iechyd preswyl, 2022-23

| Cyfranogwyr Gwrywaidd | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Bwrdd Iechyd | 55-57 oed | 58-59 oed | 60-64 oed | 65-69 oed | 70-74 oed | Cyfanswm a wahoddwyd |
| BIP Aneurin Bevan | 8,638 | 9,888 | 8,418 | 5,653 | 6,503 | **39,100** |
| BIP Betsi Cadwaladr | 10,191 | 11,962 | 10,537 | 7,172 | 8,479 | **48,341** |
| BIP Caerdydd a'r Fro | 6,281 | 7,162 | 6,265 | 3,980 | 4,292 | **27,980** |
| BIP Cwm Taf Morgannwg | 6,423 | 7,211 | 6,183 | 4,138 | 4,767 | **28,722** |
| BIP Hywel Dda | 5,515 | 6,841 | 6,146 | 4,513 | 5,080 | **28,095** |
| BI Addysgu Powys | 2,067 | 2,469 | 2,256 | 1,787 | 1,950 | **10,529** |
| BIP Bae Abertawe | 5,189 | 6,199 | 5,380 | 3,652 | 4,146 | **24,566** |
| Anhysbys | 16 | 13 | 21 | 13 | 12 | **75** |
| **Cymru Gyfan** | **44,320** | **51,745** | **45,206** | **30,908** | **35,229** | **207,408** |

Tabl 12: Cyfanswm nifer y cyfranogwyr a wahoddwyd ar gyfer sgrinio coluddion yn ôl oedran a bwrdd iechyd preswyl, 2022-23

| Cyfranogwyr | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Bwrdd Iechyd | 55-57 oed | 58-59 oed | 60-64 oed | 65-69 oed | 70-74 oed | Cyfanswm a wahoddwyd |
| BIP Aneurin Bevan | 17,047 | 19,629 | 16,769 | 11,551 | 13,420 | **78,416** |
| BIP Betsi Cadwaladr | 20,218 | 23,931 | 21,019 | 14,814 | 17,375 | **97,357** |
| BIP Caerdydd a'r Fro | 12,331 | 14,272 | 12,369 | 8,165 | 8,885 | **56,022** |
| BIP Cwm Taf Morgannwg | 12,573 | 14,491 | 12,591 | 8,251 | 9,913 | **57,819** |
| BIP Hywel Dda | 11,157 | 13,922 | 12,570 | 9,081 | 10,439 | **57,169** |
| BI Addysgu Powys | 4,175 | 4,994 | 4,586 | 3,533 | 3,866 | **21,154** |
| BIP Bae Abertawe | 10,238 | 12,351 | 10,912 | 7,506 | 8,591 | **49,598** |
| Anhysbys | 30 | 24 | 45 | 25 | 24 | **148** |
| **Cymru Gyfan** | **87,769** | **103,614** | **90,861** | **62,926** | **72,513** | **417,683** |

# Cyfraddau adrodd labordai

## Diffiniad a safon

Mae cyfraddau prawf negatif a phositif yn cael eu cyfrifo fel cyfran o'r profion a awdurdodwyd yn y cyfnod adrodd fel canlyniadau negatif a phositif – h.y. y profion hynny â chanlyniad diffiniol.

Prawf a wrthodwyd yw un sy'n cael ei wrthod ar gyfer profi gan y labordy am ei fod yn methu bodloni meini prawf penodol a ddiffiniwyd ar gyfer derbyn sampl sydd wedi'u dogfennu yn y Llawlyfr Ansawdd Labordy e.e. diffyg cyfatebiaeth rhwng yr enw a'r cod bar neu brawf a aeth heibio dyddiad terfyn y gwneuthurwr. Mae'r cyfraddau hyn yn cael eu cyfrifo fel cyfran o gyfanswm y profion sgrinio'r coluddyn a awdurdodwyd yn y cyfnod adrodd.

Mae canlyniadau a wrthodwyd yn cael eu cyfrifo fel canran o'r holl ganlyniadau (negatif, positif a gwrthodwyd).

Safon cyfradd positif: rhwng 1% a 2.5% o'r holl becynnau prawf a ddychwelir gyda chanlyniadau diffiniol â chanlyniad positif.

Safon cyfradd gwrthodwyd: llai na 2% o'r holl becynnau prawf awdurdodedig a ddychwelwyd â chanlyniad gwrthodwyd.

## Canlyniad ar gyfer 2022-2023

Yn 2022-23, y gyfradd negatif ar gyfer Cymru gyfan oedd 98.1%, positif 1.9% a'r gyfradd gwrthodwyd oedd 2.1%.

## Tuedd tair blynedd

Yn 2022-23, y gyfradd negatif ar gyfer Cymru gyfan oedd 98.1%, positif 1.9% a'r gyfradd gwrthodwyd oedd 2.1%.

Yn 2021-22, y gyfradd negatif ar gyfer Cymru gyfan oedd 98.0%, positif 2.0% a'r gyfradd gwrthodwyd oedd 3.7%.

Yn 2020-21, y gyfradd negatif ar gyfer Cymru gyfan oedd 98.2%, positif 1.8% a'r gyfradd gwrthodwyd oedd 4.5%.

## Ffigurau a thablau

### Tabl 13: Nifer y profion sgrinio coluddion a awdurdodwyd yn ôl canlyniad a bwrdd iechyd preswyl

| | Nifer y profion a awdurdodwyd - FIT Hylifol | | | | Canran - FIT Hylifol | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Bwrdd Iechyd | Gwrthodwyd | Negatif | Positif | Cyfanswm | Gwrthodwyd | Negatif | Positif |
| BIP Aneurin Bevan | 1,181 | 48,753 | 949 | 50,883 | 2.3% | 98.1% | 1.9% |
| BIP Betsi Cadwaladr | 1,156 | 59,660 | 1,094 | 61,910 | 1.9% | 98.2% | 1.8% |
| BIP Caerdydd a'r Fro | 903 | 34,346 | 644 | 35,893 | 2.5% | 98.2% | 1.8% |
| BIP Cwm Taf Morgannwg | 839 | 35,469 | 702 | 37,010 | 2.3% | 98.1% | 1.9% |
| BIP Hywel Dda | 680 | 36,187 | 658 | 37,525 | 1.8% | 98.2% | 1.8% |
| BI Addysgu Powys | 292 | 13,561 | 209 | 14,062 | 2.1% | 98.5% | 1.5% |
| BIP Bae Abertawe | 671 | 30,571 | 625 | 31,867 | 2.1% | 98.0% | 2.0% |
| Anhysbys | 2 | 87 | 1 | 90 | 2.2% | 98.9% | 1.1% |
| **Cymru Gyfan** | **5,724** | **258,634** | **4,882** | **269,240** | **2.1%** | **98.1%** | **1.9%** |

Mae cyfraddau negatif a phositif yn cael eu cyfrifo fel canran o swm y canlyniadau negatif a phositif yn unig. Mae canlyniadau a wrthodwyd yn cael eu cyfrifo fel canran o'r holl ganlyniadau (negatif, positif a gwrthodwyd.)

# Amseroedd aros ar gyfer canlyniadau sgrinio

## Diffiniad a safon

Y bwlch rhwng cael pecyn prawf sgrinio yn labordy Sgrinio Coluddion Cymru hyd at gyhoeddi'r llythyr canlyniad i'r cyfranogwr.

Y Safon: Anfonir y canlyniad prawf sgrinio at 95% o gyfranogwyr o fewn saith diwrnod i dderbyn pecyn prawf yn y labordy.

## Canlyniad ar gyfer 2022-2023

Yn 2022-23, anfonwyd y canlyniad prawf sgrinio at 100% o gyfranogwyr o fewn saith diwrnod i dderbyn pecyn prawf sgrinio yn y labordy.

## Tuedd tair blynedd

Anfonwyd y canlyniad prawf sgrinio at 100% o gyfranogwyr o fewn saith diwrnod i dderbyn pecyn prawf sgrinio yn y labordy yn 2022-23, 2021-22 a 2020-21.

## Sylw

Mae mwyafrif y pecynnau prawf sgrinio yn cael eu dadansoddi ar y diwrnod y derbynnir y pecyn yn y labordy, a dros y tair blynedd diwethaf anfonwyd llythyr canlyniad at yr holl gyfranogwyr sgrinio o fewn 7 diwrnod calendr i dderbyn y pecyn sgrinio yn y labordy.

## Ffigurau a thablau

### Tabl 14: Amser aros ar gyfer canlyniadau prawf sgrinio, o dderbyn y prawf hyd at ganlyniad wedi'i awdurdodi, 2022-23

| Diwrnodau o dderbyn hyd at awdurdodi | Nifer a awdurdodwyd | Canran y cyfanswm a awdurdodwyd |
|---|---|---|
| Yr un diwrnod | 265,126 | 98.5% |
| 1 | 3,636 | 1.4% |
| 2 | 1 | 0.0% |
| 3 | 476 | 0.2% |
| 4 | 1 | 0.0% |
| 5 | 0 | 0.0% |
| 6 | 0 | 0.0% |
| 7-13 diwrnod | 0 | 0.0% |
| 14 diwrnod a mwy | 0 | 0.0% |
| Cyfanswm | 269,240 | 100.0% |

# Presenoldeb mewn colonosgopi

## Diffiniad a safon

Mae presenoldeb yn defnyddio gweithdrefnau colonosgopi mynegeio neu sigmoidosgopi hyblyg a drefnwyd yn y cyfnod adrodd.

Y Safon: dim.

## Canlyniad ar gyfer 2022-2023

Yn 2022-23, ar lefel Cymru gyfan, aeth 95% o gyfranogwyr i'w gweithdrefn mynegeio.

## Tuedd tair blynedd

Ar lefel Cymru gyfan, aeth 95% o gyfranogwyr i'w gweithdrefn mynegeio yn 2022-23, 94.4% yn 2021-22, a 93.1% yn 2020-21.

## Ffigurau a thablau

### Tabl 15: Presenoldeb mewn colonosgopi mynegeio/sigmoidosgopi hyblyg yn ôl Bwrdd Iechyd preswyl, 2022-23

| Bwrdd Iechyd | Trefnwyd triniaeth mynegeio | Aethpwyd i'r driniaeth mynegeio | % Aethpwyd |
|---|---|---|---|
| BIP Aneurin Bevan | 837 | 781 | 93.3% |
| BIP Betsi Cadwaladr | 920 | 887 | 96.4% |
| BIP Caerdydd a'r Fro | 509 | 485 | 95.3% |
| BIP Cwm Taf Morgannwg | 402 | 379 | 94.3% |
| BIP Hywel Dda | 562 | 540 | 96.1% |
| BI Addysgu Powys | 179 | 174 | 97.2% |
| BIP Bae Abertawe | 510 | 479 | 93.9% |
| **Cymru Gyfan** | **3,919** | **3,725** | **95.0%** |

# Cyfraddau canfod

## Diffiniad a safon

Cyfrifir cyfraddau canfod fel canran y cyfranogwyr sy'n mynd i weithdrefn colonosgopi mynegeio/sigmoidosgopi hyblyg sydd â chanser/polyp(au)/adenoma/adenomâu yn cael eu canfod.

Ar gyfer canfod polyp, rhaid i un, neu ragor, o'r polyp(au) gael eu tynnu yn ystod y weithdrefn.

Y safon ar gyfer canfod canser: Mae o leiaf 10% o gyfranogwyr sy'n cael colonosgopi mynegeio/sigmoidosgopi hyblyg â chanser yn cael ei ganfod.

Y safon ar gyfer canfod polyp: Mae o leiaf 50% o gyfranogwyr sy'n cael colonosgopi mynegeio/sigmoidosgopi hyblyg â polypau yn cael eu canfod.

Y safon ar gyfer canfod adenoma: Mae o leiaf 35% o gyfranogwyr sy'n cael colonosgopi mynegeio/sigmoidosgopi hyblyg ag adenomâu yn cael eu canfod.

## Canlyniad ar gyfer 2022-2023

Yn 2022-23, y gyfradd canfod canser oedd 10.1%, y gyfradd canfod polyp oedd 73.4% a'r gyfradd canfod adenoma oedd 56.7%.

## Tuedd tair blynedd

Yn 2022-23, y gyfradd canfod canser oedd 10.1%, y gyfradd canfod polyp oedd 73.4% a'r gyfradd canfod adenoma oedd 56.7%.

Yn 2021-22, y gyfradd canfod canser oedd 10.4%, y gyfradd canfod polyp oedd 73.3% a'r gyfradd canfod adenoma oedd 59.0%.

Yn 2020-21, y gyfradd canfod canser oedd 11.6%, y gyfradd canfod polyp oedd 73.6% a'r gyfradd canfod adenoma oedd 57.7%.

## Sylw

Mae cyfraddau canfod mewn colonosgopi sgrinio wedi rhagori ar y safon sgrinio a dderbynnir yn gyson dros y tair blynedd diwethaf.

## Ffigurau a thablau

### Tabl 16: Cyfraddau canfod, tuedd tair blynedd

| | 2022-23 (N=3,725)[a] | | 2021-22 (N=3,440)[a] | | 2020-21 (N=1,823)[a] | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer a Ganfuwyd | Canran a Ganfuwyd | Nifer a Ganfuwyd | Canran a Ganfuwyd | Nifer a Ganfuwyd | Canran a Ganfuwyd |
| Cyfradd canfod canser | 376 | 10.1% | 357 | 10.4% | 211 | 11.6% |
| Cyfradd canfod polyp | 2,733 | 73.4% | 2,522 | 73.3% | 1,342 | 73.6% |
| Cyfradd canfod adenoma | 2,112 | 56.7% | 2,031 | 59.0% | 1,052 | 57.7% |

Cyfrifir cyfraddau canfod fel cyfran y cyfranogwyr sy'n mynd i weithdrefn colonosgopi mynegeio/sigmoidosgopi hyblyg. Ar gyfer canfod polyp, rhaid i un, neu ragor, o'r polyp(au) gael eu tynnu yn ystod y weithdrefn.

Mae [a]N yn dynodi cyfanswm y gweithdrefnau mynegeio yr aethpwyd iddynt.

# Amseroedd aros ar gyfer apwyntiad colonosgopi mynegeio/sigmoidosgopi hyblyg

## Diffiniad a safon

Y bwlch rhwng cyfranogwr yn ffonio i drefnu asesiad gydag Ymarferydd Sgrinio a'r dyddiad cyntaf a gynigiwyd ar gyfer colonosgopi mynegeio/ sigmoidosgopi hyblyg.

Cyfrifwyd amseroedd aros drwy ddefnyddio'r cyfranogwyr hynny â gweithdrefn mynegeio a gynigiwyd gyntaf yn ystod y cyfnod adrodd. Efallai nad hon oedd y driniaeth yr aethant iddi, yn sgil dewis y cyfranogwr neu ffactorau eraill.

Y Safon: Mae 90% o gyfranogwyr sy'n ffit i gael colonosgopi/sigmoidosgopi hyblyg yn cael cynnig eu hapwyntiad gweithdrefn mynegeio hyd at, ac yn cynnwys, 28 diwrnod calendr o'r dyddiad y maent yn ffonio i drefnu apwyntiad gydag Ymarferydd Sgrinio.

## Canlyniad ar gyfer 2022-2023

Cafodd 3,883 o gyfranogwyr gynnig gweithdrefn mynegeio a chafodd 591 (15.2%) o'r rheiny gynnig dyddiad gweithdrefn o fewn pedair wythnos (28 diwrnod) i drefnu eu hapwyntiad asesu gydag Ymarferydd Sgrinio Arbenigol.

## Tuedd tair blynedd

Yn 2022-23, cafodd 591 (15.2%) o 3,883 o gyfranogwyr gynnig dyddiad gweithdrefn o fewn pedair wythnos (28 wythnos).

Yn 2021-22, cafodd 141 (3.8%) o 3,693 o gyfranogwyr gynnig dyddiad gweithdrefn o fewn pedair wythnos (28 wythnos).

Yn 2020-21, cafodd 512 (26.82%) o 1,908 o gyfranogwyr gynnig dyddiad gweithdrefn o fewn pedair wythnos (28 wythnos).

## Sylw

O'r 3,883 o gyfranogwyr y cynigiwyd gweithdrefn mynegeio iddynt yn 2022-23, cynigiwyd dyddiad gweithdrefn i 1862 (48%) rhwng pedair wythnos ac wyth wythnos a chynigiwyd dyddiad gweithdrefn i 1430 (36.8%) fwy nag wyth wythnos ar ôl trefnu eu hapwyntiad asesu gydag Ymarferydd Sgrinio Arbenigol.

# Presenoldeb mewn sganiau Colonagraffeg Tomograffeg Gyfrifiadurol

## Diffiniad a safon

Diffiniad: Dim

Y Safon: Dim

## Canlyniad ar gyfer 2022-2023

Yn 2022-23, ledled Cymru, aethpwyd i 91.4% o'r 349 o sganiau CTC a drefnwyd; mae hyn yn amrywio rhwng 80.6% a 100% ar draws y byrddau iechyd.

## Tuedd tair blynedd

Yn 2022-23, ledled Cymru, aethpwyd i 91.4% o'r 349 o sganiau CTC a drefnwyd; mae hyn yn amrywio rhwng 80.6% a 100% ar draws y byrddau iechyd.

Yn 2021-22, ledled Cymru, aethpwyd i 92.8% o'r 375 o sganiau CTC a drefnwyd; mae hyn yn amrywio rhwng 88.7% a 97.5% ar draws y byrddau iechyd.

Yn 2020-21, ledled Cymru, aethpwyd i 95% o'r 181 o sganiau CTC a drefnwyd; mae hyn yn amrywio rhwng 90.3% a 100% ar draws y byrddau iechyd.

GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales

# Diffiniadau

## Cymwys

Ar gyfer cyfrifo cwmpas, cyfranogwyr cymwys yw'r rhai sy'n byw yng Nghymru ar adeg cyflwyno adroddiad, nad ydynt wedi gorffen cael gwahoddiad ar hyn o bryd neu nad ydynt wedi'u hatal rhag cael gwahoddiad sgrinio coluddyn yn dilyn cael gwybod am ddiagnosis o gyflwr y coluddyn, symud allan o Gymru neu farwolaeth a rhwng yr ystod oedran gwahoddiad 55 i 74 oed.

Ar gyfer cyfrifo canran y rhai a gafodd eu sgrinio, cyfranogwyr cymwys yw'r rhai a oedd yn byw yng Nghymru (heb eu didynnu ar NHAIS yn y chwe mis yn dilyn gwahoddiad) ac a gafodd eu gwahodd i sgrinio'r coluddyn yn ystod dyddiad y cyfnod adrodd. Cafodd cyfranogwyr a oedd wedi gorffen cael gwahoddiad i sgrinio'r coluddyn neu wedi'u hatal rhag hynny yn dilyn diagnosis o gyflwr y coluddyn, wedi symud allan o Gymru neu farwolaeth, o fewn chwe mis yn dilyn gwahoddiad eu heithrio, oni bai eu bod wedi dychwelyd prawf wedi'i ddefnyddio.

## Nifer y rhai sy'n cael eu sgrinio

Tybiwyd bod cyfranogwyr wedi ymateb i'w gwahoddiad os oedd y rhaglen sgrinio coluddion wedi derbyn pecyn prawf a ddefnyddiwyd o fewn chwe mis yn dilyn eu gwahoddiad.

## Cwmpas

Mae'r cyfrifiad yn cyfrif y cyfranogwyr cymwys hynny y mae eu pecyn prawf a ddefnyddiwyd wedi'i awdurdodi o fewn dwy flynedd a hanner i'r dyddiad adrodd.

## Amddifadedd

Cafodd cwintelau amddifadedd eu pennu drwy ddefnyddio Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALlC) 2014, a'u mesur ar lefel ardal cynnyrch ehangach haen is. Mae ardaloedd cynnyrch ehangach haen is wedi'u graddio i gwintelau Cymru gyfan er mwyn gallu eu cymharu rhwng byrddau iechyd. Mae hyn yn golygu na fydd cyfran gyfartal o bobl ym mhob cwintel pan fyddwch yn ystyried pob bwrdd iechyd e.e. yn Sir Fynwy, mae 40% o'r boblogaeth yn byw yn y cwintel â'r amddifadedd lleiaf yng Nghymru, ond nid oes unrhyw ardaloedd yn y cwintel â'r amddifadedd mwyaf yng Nghymru.

## Bwrdd iechyd

Dyma'r bwrdd iechyd preswyl.

## Rownd Bennaf - gwahoddiad cyntaf

Gwahoddiad cyntaf yn y rownd bennaf yw'r tro cyntaf y gwahoddir person i gymryd rhan mewn sgrinio. Nid ydynt wedi'u sgrinio yn flaenorol am nad ydynt wedi'u gwahodd yn flaenorol.

## Rownd bennaf - gwahoddiad dilynol

Gwahoddiad dilynol y rownd bennaf yw pan fydd person wedi'i wahodd yn flaenorol, ond nad yw wedi cymryd rhan mewn sgrinio yn flaenorol. Nid ydynt wedi'u sgrinio yn flaenorol ond maent wedi'u gwahodd yn flaenorol.

## Rownd Digwyddiad

Y rownd digwyddiad yw pan fydd pobl sydd wedi'u gwahodd yn flaenorol, ac sydd wedi derbyn y cynnig, wedyn yn cael eu hailwahodd i gael eu sgrinio.

## Prawf negatif a phositif

Mae'r cyfraddau hyn wedi'u cyfrifo fel cyfran o'r profion a awdurdodwyd yn y cyfnod adrodd fel canlyniadau negatif a phositif – h.y. y profion hynny â chanlyniad diffiniol.

## Prawf a wrthodwyd

Prawf a wrthodwyd yw un sy'n cael ei wrthod ar gyfer profi gan y labordy am ei fod yn methu bodloni meini prawf penodol a ddiffiniwyd ar gyfer derbyn sampl sydd wedi'u dogfennu yn y Llawlyfr Ansawdd Labordy e.e. diffyg cyfatebiaeth rhwng yr enw a'r cod bar neu brawf a aeth heibio dyddiad terfyn y gwneuthurwr. Mae'r cyfraddau hyn yn cael eu cyfrifo fel cyfran o gyfanswm y profion sgrinio'r coluddyn a awdurdodwyd yn y cyfnod adrodd.

## Amseroedd aros ar gyfer canlyniadau sgrinio

Y bwlch rhwng cael pecyn prawf sgrinio yn labordy Sgrinio Coluddion Cymru hyd at gyhoeddi'r llythyr canlyniad i'r cyfranogwr.

## Gweithdrefn mynegeio

Gweithdrefn mynegeio yw'r weithdrefn mynegeio gyntaf yng nghyfnod sgrinio'r cyfranogwr.

## Colonosgopi

Colonosgopi yw archwiliad gweledol o'r tu mewn i'r colon â thiwb hyblyg, wedi'i oleuo (colonosgop) wedi'i fewnosod drwy'r rectwm. Yn ystod colonosgopi, gellir cael biopsïau (samplau meinwe o ardaloedd annormal) i gynorthwyo diagnosis.

## Sigmoidosgopi Hyblyg

Colonosgopi hyblyg yw archwiliad gweledol o ran isaf y coluddyn mawr â thiwb hyblyg, wedi'i oleuo wedi'i fewnosod drwy'r rectwm. Yn ystod sigmoidosgopi hyblyg, gellir cael biopsïau (samplau meinwe o ardaloedd annormal) i gynorthwyo diagnosis.

## Presenoldeb a chyfraddau canfod

Y cyfraddau presenoldeb a chanfod sydd wedi'u trefnu yn y cyfnod adrodd.

## Cyfraddau canfod

Cyfrifir cyfraddau canfod fel canran y cyfranogwyr sy'n mynd i weithdrefn colonosgopi mynegeio/sigmoidosgopi hyblyg sydd â chanser/polyp(au)/adenoma/adenomâu yn cael eu canfod.

Ar gyfer canfod polyp, rhaid i un, neu ragor, o'r polyp(au) gael eu tynnu yn ystod y weithdrefn.

## Polyp

Mae polyp yn dwf ar leinin y colon neu'r rectwm.

## Adenoma

Mae adenoma yn dwf anfalaen sy'n gallu datblygu'n ganser.

## Amseroedd aros ar gyfer apwyntiad colonosgopi mynegeio/sigmoidosgopi hyblyg

Y bwlch rhwng cyfranogwr yn ffonio i drefnu asesiad gydag Ymarferydd Sgrinio a'r dyddiad cyntaf a gynigiwyd ar gyfer colonosgopi mynegeio/ sigmoidosgopi hyblyg

Cyfrifwyd amseroedd aros drwy ddefnyddio'r cyfranogwyr hynny â gweithdrefn mynegeio a gynigiwyd gyntaf yn ystod y cyfnod adrodd. Efallai nad hon oedd y driniaeth yr aethant iddi, yn sgil dewis y cyfranogwr neu ffactorau eraill.

## Sgan Colonagraffeg Tomograffeg Gyfrifiadurol (CTC)

Mae sgan CTC yn dechneg pelydr-X arbenigol sy'n cynhyrchu delweddau manwl o'r coluddyn mawr.

# Tîm cynhyrchu

| | |
|---|---|
| Dr Graham Brown | Ymgynghorydd mewn Meddygaeth Iechyd Cyhoeddus |
| Steve Court | Pennaeth y Rhaglen - Sgrinio Coluddion Cymru |
| Dr Sharon Hillier | Cyfarwyddwr yr Adran Sgrinio |
| Dr Sikha de Souza | Ymgynghorydd mewn Meddygaeth Iechyd Cyhoeddus |
| Dr Todd Smith | Ymgynghorydd mewn Meddygaeth Iechyd Cyhoeddus |
| Helen Clayton | Rheolwr Gwasanaethau Gwybodeg a Data |
| Richard Wakely | Uwch-ddadansoddwr Gwybodeg a Data |
| Holly Vizard | Dadansoddwr Gwybodeg a Data |
| Guy Stevens | Dirprwy Reolwr Gwasanaethau Gwybodeg a Data |
| Diane Rawlings | Cynorthwyydd Personol |

# Manylion cyswllt y rhaglen

Sgrinio Coluddion Cymru,

Y Ganolfan Sgrinio,

Uned 6, Parc Magden,

Llantrisant,

CF72 8XT

E-bost: bowel-screening@wales.nhs.uk

Ffôn: 0800 294 3370

Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales

# Gweithio gyda'n gilydd i greu Cymru iachach

# Working together for a healthier Wales